Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn**

**Neuadd Cemaes**
**Cemaes**
**Machynlleth**
**SY20 9PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal ac maent yn gwneud ffrindiau. Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac yn datblygu i fod yn sensitif i eraill. Maent yn dysgu i reoli eu hymddygiad, i gydweithredu, i gymryd eu tro ac i rannu. Mae'r plant yn ymddiddori mewn gweithgareddau ac yn dyfalbarhau am gyfnodau priodol o amser i'w cwblhau.

Mae'r staff gofal yn arfer dull cyson ac yn modelu ymddygiad cadarnhaol. Maent yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn trin pob plentyn ag urddas a pharch. Caiff polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo llesiant y plant eu rhoi ar waith gan y staff gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae digon o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant ac maent yn addas o ran eu dyluniad a'u cyflwr. Ar hyn o bryd nid oes lle awyr agored cyfagos y gellir ei ddefnyddio yn y lleoliad ond mae hyn yn cael ei ddatblygu.

Cofrestrodd y lleoliad gyda AGC ym mis Rhagfyr 2022. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cyfredol, sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â phob rheoliad ac o ganlyniad, rydym wedi cyhoeddi dau hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac wedi nodi un maes i'w wella. Mae chwe argymhelliad wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad.

| Llesiant | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Maent yn rhannu'r hyn yr hoffent ei wneud nesaf o blith dewis cyfyngedig â'r staff gofal. Er enghraifft, gan ddewis pa stori yr hoffent ei darllen neu ba deganau yr hoffent eu defnyddio nesaf. Caiff y plant ddigon o ryddid i archwilio eu hamgylchedd dan do yn ddiogel. Gallant symud o un ardal ddysgu i'r llall. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn chwarae yn y gegin chwarae rôl cyn symud ymlaen i chwarae gyda'r blociau. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, rhoddwyd dewis i'r plant rhwng dŵr neu laeth i'w yfed a ffyn bara neu rawnwin i'w bwyta. Fodd bynnag, roedd y diodydd a'r byrbryd yn cael eu gosod o flaen y plant yn hytrach na galluogi'r plant i helpu eu hunain.

Mae rhywfaint o amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran ar gael i'r plant sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn dyfalbarhau wrth adeiladu trac trenau. Roeddent yn gallu cynnal eu diddordeb a chanolbwyntio, gan addasu a datblygu cynllun y trac trenau wrth iddynt rannu syniadau â'i gilydd a gyda'r staff gofal a oedd yn cyd-chwarae â nhw. Mae'r plant yn gofalu am y cyfarpar a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithredu, ac maent yn ymddiddori ac yn cymryd rhan ar y cyfan. Maent yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion pobl eraill. Adeiladodd y plant siapiau gan ddefnyddio teils magnetig, gan gopïo'r dyluniadau a ddangoswyd gan y staff gofal. Adeiladodd y plant wahanol siapiau a'u henwi'n gywir, er enghraifft "*Triongl*". Maent yn chwarae'n greadigol gan ddefnyddio eu dychymyg i ddylunio ac adeiladu roced a thŷ cyn ychwanegu at y siapiau er mwyn creu trên. Mae'r plant yn rhannu'r adnoddau, gan aros a chymryd eu tro i ddefnyddio'r teils magnetig neu ofyn yn gwrtais am wahanol siapiau. Siaredir â'r plant yn dawel ac ar eu lefel nhw wrth eu hatgoffa i chwarae'n garedig, "*Dydan ni ddim yn bwrw*".

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni ac yn setlo'n dda wrth ymgymryd â'r drefn foreuol. Maent yn chwarae'n hapus ac yn gallu ymlacio dan ofal y staff. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do. Mae'r plant yn canolbwyntio ar eu tasgau, gan osod compost mewn potyn ac yna blannu hedyn. Mae'r plant yn mwynhau creu anrhegion bach i'w rhieni ar achlysuron arbennig.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae'r staff gofal yn rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Er enghraifft, caiff prydau, byrbrydau a diodydd maethlon a chytbwys eu cynnig. Maent yn rhoi arferion hylendid priodol ar waith, megis glanhau byrddau ar ôl eu defnyddio a sicrhau eu bod yn sychu wynebau a dwylo'r plant yn rheolaidd. Caiff ffurflenni damweiniau/digwyddiadau eu cwblhau gan y staff gofal a chânt eu rhannu â'r rhieni. Maent yn cwblhau cofrestrau presenoldeb y plant yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd ac mae ganddynt dystysgrifau cyfredol mewn cymorth cyntaf pediatrig, diogelwch bwyd ac amddiffyn plant. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o ddiogelu, gan gynnwys sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant a'r broses i'w dilyn wrth ymdrin â honiad yn erbyn y person â chyfrifoldeb neu'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r staff gofal yn deall polisi ymddygiad y lleoliad ac yn ei ddilyn, ac yn rheoli'r rhyngweithio'n briodol. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant ac annog ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn plygu at lefel llygaid y plant ac yn eu hannog mewn ffordd sensitif i rannu. Maent yn tawelu sefyllfaoedd drwy roi teganau gwahanol i'r plant chwarae â nhw ac yn rhoi digon o faldod a chanmoliaeth iddynt am eu cyflawniadau. Mae hyn yn helpu i feithrin hunan-barch a hyder y plant. Mae'r staff gofal yn datblygu eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant ac yn dysgu i ddeall sut y gall hyn effeithio ar ymddygiad y plant.

Mae gan y staff gofal agwedd ofalgar a magwrus ac maent yn mwynhau treulio amser gyda'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u datblygiad unigol. Mae'r staff gofal yn dechrau datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i roi ar waith drwy wrando ar syniadau, hoff bethau a chas bethau'r plant. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod o'r broses ar gyfer monitro cynnydd y plant na chofnod eu bod wedi defnyddio llais y plant i fireinio'r gwaith o gynllunio'r dysgu a phrofiadau ar gyfer y dyfodol.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau digonol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn gweithredu o'r neuadd gymunedol leol. Nid oes llawer o le ar gael i'r lleoliad, ond mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llwyddo i reoli'r lle sydd ar gael iddynt yn rhesymol dda. Nid oes modd i ymwelwyr gyrraedd unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod y staff gofal yn eu gadael i mewn.

Mae asesiadau risg boddhaol ar waith a gaiff eu gweithredu'n ymarferol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr y gall y staff gael gafael ar becynnau cymorth cyntaf yn hawdd a bod unrhyw sylweddau peryglus yn cael eu cadw allan o gyrraedd y plant. Mae tystysgrifau diogelwch y system wresogi a thystysgrifau profion PAT wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau unrhyw ymarferion tân hyd yma ac nid ydynt yn cadw cofnodion o ymarferion tân rheolaidd. Ni all y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod yn sicr y gall y plant adael y lleoliad yn ddiogel mewn argyfwng. Nid oes unrhyw arddangosiadau yn dathlu gwaith y plant i'w gweld ar hyn o bryd.

Ar y cyfan, mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol gyda systemau gwresogi ac awyru digonol, yn dibynnu ar y tymheredd. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff fod y plant weithiau'n cysgu yn eu cadeiriau gwthio yn y cyntedd gan fod y sŵn o'r brif ystafell chwarae yn tarfu arnynt. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd y cyntedd yn oer iawn ac nid oedd unrhyw wres yno. Cadarnhaodd y staff gofal nad oedd ganddynt ffordd o fesur tymheredd y cyntedd ac nad oeddent ychwaith yn ystyried goblygiadau rhoi plant i gysgu yn eu cadeiriau gwthio a chau'r strapiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn cynnig digon o le ar gyfer chwarae a dysgu. Mae digon o le a chyfleusterau ar gael i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r teganau a'r cyfarpar yn briodol ar gyfer oedran pob plentyn ac nid oes teganau nac adnoddau ar gael sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant. Dan do, mae'r staff gofal yn darparu adnoddau glân sy'n addas i oedran y plant, sydd mewn cyflwr da, ac sy'n cael eu storio lle y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r dodrefn yn addas i oedran y plant, gan hybu annibyniaeth a sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn ddiogel wrth chwarae. Ar hyn o bryd nid oes gan blant fynediad i ardal chwarae allanol sy'n gyfagos i'r lleoliad ond mae hyn yn cael ei ddatblygu. Weithiau, mae'r staff gofal yn mynd â'r plant i'r parc lleol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Gwael |
|---|---|

Nid yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gyson. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cyfredol a digonol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n sicrhau bod y rhieni yn gallu gwneud dewis gwybodus am y lleoliad. Mae ganddynt rywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau rheoliadol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Maent yn cadw rhai cofnodion mewn perthynas â chontractau'r plant, caniatadau ac anghenion unigol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod contractau pob plentyn a chaniatadau gan eu rhieni wedi'u cwblhau cyn i'r plant fynychu'r lleoliad. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli eu timau mewn ffordd foddhaol. Dywedodd llawer o'r staff gofal wrthym eu bod yn hapus yn y gwaith a'u bod yn mwynhau gweithio fel tîm i gefnogi ei gilydd. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad nad ydynt bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan rai o'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad ac nad ydynt bob amser yn gwrando arnynt. Mae angen ymdrin â'r mater hwn yn fewnol, er mwyn sicrhau y caiff adborth adeiladol ei ystyried. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn mynd ati i roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef '*Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'*, ar waith. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â busnes bwyd lleol i ddarparu bwyd cartref poeth i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal rhai o'r gwiriadau recriwtio gofynnol ar gyfer y staff gofal yn unol â'r rheoliadau. Maent yn cynnwys geirdaon ar gyfer pob aelod o'r staff a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gaiff eu diweddaru a'u cofnodi. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn dilyn prosesau recriwtio diogel er mwyn diogelu'r plant. Nid oes gan y lleoliad bob amser ddigon o aelodau cymwysedig o staff i ddiwallu anghenion y plant. Nid yw bob amser yn cynllunio ar gyfer absenoldebau staff gofal yn fanwl. Gofynnwyd i wirfoddolwyr gyflenwi pan oedd staff yn absennol, heb gynnal y gwiriadau recriwtio a'r gwiriadau addasrwydd priodol, yn unol â'r rheoliadau. Felly, rydym wedi cyhoeddi dau hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r ddau fater hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS). Maent wrthi'n cwblhau adroddiad o ansawdd y gofal a chaiff holiaduron eu hanfon at y rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r lleoliad a'r gofal a gaiff y plant, gan nodi bod eu plant bob amser yn awyddus i fynychu'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni drwy ddefnyddio llwyfan ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fel gwybodaeth am newid cewynnau, amseroedd cysgu, y bwyd a gafodd ei fwyta a lluniau o weithgareddau.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Datblygu system i olrhain cynnydd y plant a'i defnyddio i gynllunio'r ddarpariaeth ac i ddatblygu profiadau a dysgu ar gyfer y dyfodol.

A2 Sicrhau y caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

A3 Sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn ymwybodol o'r canllawiau ar blant sy'n cysgu a chofnodi tymheredd yr ystafell y mae'r plant yn cysgu ynddi.

A4 Datblygu'r ardal chwarae awyr agored ger y lleoliad.

A5 Sicrhau bod yr adnoddau, y teganau a'r cyfarpar yn briodol ar gyfer oedran pob plentyn a hyrwyddo amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant.

A6 Cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd a chadw'r cofnodion priodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod o leiaf 80% o'r staff nad ydynt yn oruchwylwyr yn meddu ar gymhwyster hyd at lefel dau o leiaf o dan Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau ar gyfer y staff gofal a'r gwirfoddolwyr cyn iddynt weithio gyda'r plant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau cysondeb wrth cadw cofnodion cywir a chlir ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/04/2023